# Comisiynydd Plant Cymru
# Children's Commissioner for Wales
## Sally Holland

**PRESS RELEASE / DATGANIAD I'R WASG**

EMBARGOED UNTIL: 00:01 on Friday, 20 November 2015

**(Cymraeg isod)**

## Children Commissioner for Wales marks Universal Children's Day by calling for children to be given equal protection.

Sally Holland, the Children's Commissioner for Wales has marked Universal Children's Day by urging Wales to lead the way in the field of children's rights and become the first nation in the UK to remove the legal defence of 'reasonable punishment' against children. The Commissioner says this would provide children with the same protection as adults in the eyes of the law. No legal defence exists for hitting another adult.

Sally Holland said:

"Universal Children's day provides an opportunity to reflect on Wales' strengths and weaknesses of how we uphold children's rights. The fact that we allow vulnerable children to be smacked undermines Wales' commitment to children's rights. This is a matter of equality, of rights and building on our culture of respecting the place of children in Welsh society.

"I find it really odd that we retain a law that gives children less protection than adults, when many other laws, like the age of consent, aim to give children more protection than adults because they are more vulnerable.

"We need to promote a culture of positive parenting in Wales, because we know that smacking is ineffective and leads to poorer outcomes for children. Some argue that we should educate rather than change the law, however the evidence from other countries tells us that we need both. Any attempt to promote positive parenting is undermined by the current position in law. "

Ireland became the 47th country to ban corporal punishment, or smacking, earlier this month. Sally Holland added:

"Countries quite similar to ours, like New Zealand, have done it successfully. Ireland banned smacking last month with little fuss and wide consensus."

The Commissioner said that many people have told her that they agree with the principle, but don't see how a law would work. In response to this Sally Holland stated:

"This is about educating and changing culture - not about criminalising parents. None of the countries that have introduced the ban have seen big levels of prosecution of parents and in every country, levels of smacking have declined substantially. "

The Children's Commissioner believes that there is potential for cross political party agreement on legal change and believes it to be a very real prospect given the right political leadership in Wales. Sally Holland concluded:

"Retaining a legal right to hit our children undermines any claim to be a nation that cherishes our children and gives them rights in society. Wales can do it and should do it."

**Ends**

To arrange an interview with the new Children's Commissioner for Wales, please contact Gwion Evans on 07794 123132 or gwion.evans@childcomwales.org.uk

**Notes for Editors**

- Universal Children's Day was established by the United Nations in 1954 to encourage understanding between children and promote children's welfare around the world. It is held on 20 November, the same day the UN General Assembly adopted the Declaration of the Rights of the Child in 1959 and signed the Convention on the Rights of the Child in 1989.

- Sally Holland will be co-hosting a training event with young people from the Vale of Glamorgan Youth Service's Rights Ambassadors project on the morning of Friday 20th November 2015.The event will support the training of the Children's Commissioner's Super Ambassadors in the Vale of Glamorgan. The training event be held at Barry YMCA.

- The Super Ambassadors Scheme, to which all primary schools can sign-up, enables pupils to become the Commissioner's Ambassadors within their schools.

# Comisiynydd Plant Cymru yn nodi Diwrnod Byd-eang y Plant trwy alw am amddiffyniad cyfartal i blant.

Mae Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, wedi nodi Diwrnod Byd-eang y Plant trwy annog Cymru i arwain y ffordd ym maes hawliau plant a dod yn genedl gyntaf o fewn y Deyrnas Unedig i ddileu amddiffyniad cyfreithiol 'cosb resymol' yn erbyn plant. Yn ôl y Comisiynydd, byddai hyn yn rhoi'r un amddiffyniad i blant ag i oedolion yn llygaid y gyfraith. Nid oes amddiffyniad cyfreithiol yn bodoli am daro oedolyn arall.

Dywedodd Sally Holland:

"Mae Diwrnod Byd-eang y Plant yn gyfle i fyfyrio ar gryfderau a gwendidau Cymru o ran sut rydyn ni'n cynnal hawliau plant. Mae'r ffaith ein bod ni'n caniatáu i blant agored i niwed gael eu smacio yn tanseilio ymrwymiad Cymru i hawliau plant. Mae hwn yn fater o gydraddoldeb, o hawliau, ac o adeiladu ar ein diwylliant o barchu lle plant yn y gymdeithas yng Nghymru.

"Rwy'n cael ei bod hi'n rhyfedd iawn ein bod ni'n cadw cyfraith sy'n rhoi llai o amddiffyniad i blant nag i oedolion, gan fod llawer o gyfreithiau eraill, fel oed cydsyniad, yn ceisio rhoi mwy o amddiffyniad i blant nag i oedolion oherwydd eu bod yn fwy agored i niwed.

"Mae angen i ni hybu diwylliant o rianta cadarnhaol yng Nghymru, oherwydd rydyn ni'n gwybod nad yw smacio'n effeithiol, a'i fod yn arwain at ganlyniadau gwaelach i blant. Mae rhai yn dadlau y dylen ni addysgu, yn hytrach na newid y gyfraith, ond mae'r dystiolaeth o wledydd eraill yn dangos bod angen gwneud y ddau beth. Mae unrhyw ymgais i hybu rhianta cadarnhaol yn cael ei thanseilio gan y sefyllfa bresennol o ran y gyfraith."

Iwerddon oedd gwlad rhif 47 i wahardd cosb gorfforol, neu smacio, yn gynharach y mis yma. Ychwanegodd Sally Holland:

"Mae gwledydd digon tebyg i'n gwlad ni, fel Seland Newydd, wedi gwneud hyn yn llwyddiannus. Gwaharddodd Iwerddon smacio fis diwethaf, heb fawr ddim ffwdan, a chonsensws cyffredinol."

Yn ôl y Comisiynydd mae llawer o bobl wedi dweud wrthi eu bod nhw'n cytuno â'r egwyddor, ond eu bod nhw'n methu gweld sut byddai cyfraith yn gweithio. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Sally Holland:

"Mater o addysgu a newid diwylliant yw hyn – nid troseddoli rhieni. Does dim un o'r gwledydd sydd wedi cyflwyno gwaharddiad wedi gweld lefelau uchel o erlyn rhieni, ac ym mhob gwlad, mae lefelau smacio wedi gostwng yn sylweddol."

Ym marn y Comisiynydd Plant mae potensial i sicrhau cytundeb i newid y gyfraith ar draws y pleidiau, ac mae hi'n gweld hyn yn bosibilrwydd gwirioneddol o gael yr arweiniad gwleidyddol iawn yng Nghymru. I gloi, dywedodd Sally Holland:

"Mae cadw hawl cyfreithiol i daro ein plant yn tanseilio unrhyw honiad ein bod ni'n genedl sy'n anwylo ein plant ac yn rhoi hawliau iddyn nhw yn y gymdeithas. Mae Cymru'n gallu gwneud hyn, ac fe ddylai ei wneud."

**Diwedd**

I drefnu cyfweliad gyda Chomisiynydd Plant newydd Cymru, cysylltwch â Gwion Evans ar 07794 123132 neu gwion.evans@complantcymru.org.uk

**Nodiadau i Olygyddion**

- Sefydlwyd Diwrnod Byd-eang y Plant gan y Cenhedloedd Unedig yn 1954 i feithrin dealltwriaeth ymhlith plant a hybu lles plant ar draws y byd. Mae'n cael ei gynnal ar 20 Tachwedd, y diwrnod pryd y mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y CU y Datganiad ar Hawliau'r Plentyn yn 1959, a llofnodi'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn 1989.

- Bydd Sally Holland yn cyd-gynnal digwyddiad hyfforddi gyda phobl ifanc o brosiect Llysgenhadon Hawliau Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg fore dydd Gwener 20 Tachwedd 2015. Bydd y digwyddiad yn cefnogi hyfforddiant Llysgenhadon Gwych y Comisiynydd Plant ym Mro Morgannwg. Bydd y digwyddiad hyfforddi yn cael ei gynnal yn YMCA y Barri.

- Mae'r Cynllun Llysgenhadon Gwych, y gall pob ysgol gynradd ymuno ag ef, yn galluogi disgyblion i fod yn Llysgenhadon i'r Comisiynydd yn eu hysgolion.